| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 19 Ionawr, 2023 |
| **Teitl** | Torri Gwair a Chynnal Tiroedd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Bwrdeistrefol a YGC |
| **Pwrpas** | Adolygiad o drefniadau cynnal ymylon ffyrdd Sirol |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif bwrpas ymylon ffyrdd yw sicrhau gwelededd clir ar gyfer traffig yn ogystal â darparu lleoedd diogel i gerddwyr gerdded mewn ardaloedd lle nad oes troedffyrdd. O ganlyniad, mae'n rhaid rheoli ymylon i ddiogelu holl ddefnyddwyr y ffordd.

1.2 Fodd bynnag, mae ymylon hefyd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth er budd rhywogaethau fel gwenyn a pheillwyr eraill, ar gyfer blodau a bywyd gwyllt sy'n diflannu'n gyflym yng nghefn gwlad, ac fel coridorau bywyd gwyllt hanfodol sy'n cysylltu cynefinoedd. Felly, rydym yn anelu i adolygu ein trefniadau torri gwair cyfredol a mynd i'r afael â'r uchod mewn modd realistig ac economaidd.

1.3 Cyflwynir yr adroddiad hwn gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd o ran paratoi polisi cynnal ymylon ffordd fydd yn cynnwys torri a chasglu gwair a sut y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

**2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol**

2.1 Yn ôl ym mis Ionawr y llynedd, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn amlinellu'r drefn torri gwair arfaethedig er trafodaeth. Yn gryno, eglurwyd fod yr ymylon ar ein rhwydwaith priffyrdd yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn yn seiliedig ar amser.

2.2 Eglurwyd hefyd ein bod yn gweithio tuag at bolisi o dorri a chasglu gwair lle bo modd a phan fo adnoddau'n caniatáu. Pwrpas hyn fydd i hybu anghenion bioamrywiaeth a bywyd gwyllt (er gall gweithredu cynllun torri a chasglu hir dymor hefyd arwain at arbedion ariannol gan na fydd rhai safleoedd yn cael eu torri mwyach yn ystod y gwanwyn).

2.3 Mae'r Adran yn falch o adrodd ein bod, mewn partneriaeth a'r Adran Amgylchedd, wedi llwyddo i sicrhau cyllideb trwy gynllun Partneriaeth Natur Leol Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'n harferion torri gwair er mwyn darganfod a allwn gael gwell rheolaeth ar ein trefniadau presennol er mwyn hyrwyddo buddion bioamrywiaeth. Bydd yr adolygiad yn cydredeg â phrosiectau sydd gan yr Adran Amgylchedd i fuddsoddi yn rhai o fannau agored cyhoeddus y Cyngor er mwyn cysylltu ein trigolion â byd natur.

## 3. Treialon Torri a Chasglu

3.1 Yn hanesyddol, mae rheolaeth ymylon ffyrdd Gwynedd wedi canolbwyntio ar ystyriaethau diogelwch yn hytrach nag unrhyw fuddion ehangach. O ganlyniad, mae ein hymylon o bosib wedi cael eu torri'n rhy aml, ar yr adegau anghywir gyda'r gwair yn cael ei adael yn y fan a'r lle ar ôl torri. Yn anffodus, nid yw'r math yma o reoli ymylon yn cefnogi bioamrywiaeth.

3.2 Cydnabyddir bod gadael gwair ar dir ar ôl ei dorri yn arwain at gynyddu ffrwythlondeb pridd sy'n annog gweiriau egnïol, danadl poethion ac ati i ffynnu ar draul blodau gwyllt cynhenid. Fodd bynnag, mae casglu gwair ar ôl ei dorri yn arwain at bridd sy'n llai ffrwythlon ac sydd felly yn cynhyrchu tiroedd sy'n gyfoethog mewn blodau gwyllt ac sydd a'r gallu i gynnal mwy o fywyd gwyllt.

3.3 Fel rhan o'r adolygiad i drefniadau torri gwair yr Adran, comisiynwyd Ecoscope, sef cwmni arbenigol o Gonwy, i ddarparu cynllun ar gyfer cynnal treialon torri a chasglu ar ein rhwydwaith priffyrdd gwledig. Roedd eu cylch gorchwyl yn cynnwys asesu gwerth blodau a bywyd gwyllt presennol ar wahanol safleoedd, cynnig manyleb torri a chasglu ar gyfer y safleoedd, rheoli'r treialon a monitro'r safleoedd dros amser. Mae'r cynllun maent wedi'i ddarparu ar ein cyfer yn dilyn yr egwyddorion yn y canllaw ymarfer da 'Managing Grassland Road Verges' gan Plantlife, yr elusen cadwraeth planhigion gwyllt.

3.4 Gyda mewnbwn gan beirianwyr yr Adran, bu iddynt adnabod wyth lleoliad addas ar yr A497 a A499 yn Nwyfor i gynnal y treialon. Yn ogystal â bod yn gymharol ddiogel, dewiswyd y safleoedd oherwydd eu bod yn syth, llydan a hir ac felly yn ddigon mawr i ddarparu data ystyrlon y gellid ei ddefnyddio i gyfiawnhau newid yn y drefn torri gwair.

3.5 Cynhaliwyd y gwaith gweithredu (torri a chasglu'r gwair, ysgarthu'r wyneb a hau hadau blodau gwyllt ar bob un o'r safleoedd) fis Hydref diwethaf gan gwmni Kehoe o Dregarth.

3.6 Bydd Ecoscope yn cario allan asesiad manwl o werth y bioamrywiaeth ar y safleoedd o fis Ebrill ymlaen i weld os yw'r treialon wedi bod yn llwyddiannus. Os daw i'r amlwg fod y treialon wedi bod yn llwyddiannus, yna bydd y data a'r profiadau a enillwyd yn gatalydd i'r Adran wneud cais am arian grant pellach er mwyn ymestyn y treialon i Arfon a Dwyfor.

3.7 Dylid nodi bod arian grant y Bartneriaeth Natur Leol hefyd wedi ein galluogi i brynu peiriannau torri a chasglu gwair arbenigol a fydd yn galluogi'r Adran i ymgymryd â'r gwaith gweithredol o hyn ymlaen.

3.8 Gall ymylon ffyrdd sy'n cael eu gadael heb eu torri yn ystod y gwanwyn gael eu hystyried yn flêr gan y cyhoedd a defnyddwyr ffyrdd. O ganlyniad, mae'n hollbwysig ein bod yn rheoli canfyddiad y cyhoedd o'r treialon yn ogystal â'n huchelgais i ymestyn y cynllun torri a chasglu yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, mae pob Aelod Lleol a Chyngor Cymuned lle lleolir y safleoedd treial wedi cael eu hysbysu am y gwaith a bwriedir gosod arwyddion ar bob safle sy'n cynnwys dolen i hysbysu'r cyhoedd am y cynllun. Mae bwriad hefyd i godi ymwybyddiaeth am y cynllun drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ati wrth i'r blodau gwyllt ddechrau blodeuo yn y gwanwyn.

3.9 Yn fwy cyffrous, bwriedir hyrwyddo'r treialon yn stondin y Cyngor ar faes Eisteddfod Llyn ac Eifionydd. Bydd hyn yn cydredeg a hyrwyddiad yr Adran Amgylchedd o'u cynllun Dolydd Blodau Gwyllt Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd dalgylch yr Eisteddfod er mwyn sefydlu rhwydwaith o gynefinoedd blodau gwyllt. Mae pob un o'r safleoedd treial wedi'u lleoli ar y prif ffyrdd sy'n arwain at yr Eisteddfod. O ganlyniad, y gobaith yw y byddant yn ffynnu erbyn i'r Eisteddfod gael ei chynnal fel eu bod yn cyflwyno croeso cynnes, lliwgar a naturiol i ymwelwyr.

## 4. Ystyriaethau Pellach

4.1 Mynegwyd pryderon yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu fis Ionawr diwethaf ynglŷn â'r effeithiau posibl ar iechyd a diogelwch defnyddwyr ein ffyrdd o ganlyniad i ymylon gael eu gadael heb eu torri er mwyn hybu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir y bydd iechyd a diogelwch bob amser yn cael blaenoriaeth ac ni fydd unrhyw safle yn cael ei ystyried os oes potensial iddo effeithio ar yr agwedd hon.

4.2 Mynegwyd pryderon hefyd am y potensial i rai ymylon o fewn ein trefi a phentrefi beidio â chael eu torri o ganlyniad i'r treialon. Er hynny, dylid cadarnhau nad oes bwriad i gynnwys ymylon trefol yn y treialon. Fodd bynnag, pe byddem yn meddwl cynnwys lleoliadau o fewn trefi a phentrefi yn y dyfodol, yna byddem yn cynnwys yr Aelod Lleol a'r cyngor cymuned/tref berthnasol yn y trafodaethau cyn symud ymlaen.

4.3 Soniwyd yn yr un cyfarfod am y prosiect ar y cyd gyda'r elusen Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sydd hefyd yn ymwneud â threfniadau torri a chasglu ond ar leiniau bach o dir. Fodd bynnag, er bod amcanion y prosiect yma'n debyg i'r un ar gyfer ymylon ffyrdd, mae'n canolbwyntio'n fwy ar gefnogi cymunedau a mudiadau lleol i warchod, rheoli a chynyddu cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr. Daw'r prosiect hwn i ben eleni a bydd y canlyniadau'n cael eu cynhyrchu gan yr elusen yn fuan wedyn.

## 5. Casgliad

5.1 Bydd yr Adran yn mynd allan i gontract eleni am wasanaethau torri gwair ymylon ffyrdd gwledig. Cydnabyddir na fydd polisi torri gwair newydd wedi'u lunio hyd bydd canfyddiadau'r treialon torri a chasglu i law. Fodd bynnag, mae darpariaethau wedi'u cynnwys yn nogfennau'r contract a fydd yn caniatáu unrhyw newid fel bydd y polisi newydd wedi'i benderfynu. Bydd y contract newydd yn weithredol y gwanwyn hwn.